

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 196(6) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU DRAFFT

---

**2017 Rhif (Cy. )**

**GOFAL CYMDEITHASOL,  
CYMRU A LLOEGR**

**Rheoliadau Deddf Gwasanaethau  
Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)  
2014 (Diwygiadau Canlyniadol)  
2017**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan adran 198 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"). Maent yn gwneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ychwanegol at ddiwygiadau a wnaed yn Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Deddf Plant 1989 drwy ddatgymhwysu adran 25C(2) o ran Cymru.

Mae rheoliad 3 yn diwygio adran 2(6)(c) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 drwy roi "section 144 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014" yn lle'r cyfeiriad at "section 6 of the Local Authority Social Services Act 1970".

Cyflwynodd Deddf Plant a Theuluoedd 2014 "child arrangements order", yn lle'r gorchymyn preswyllo a'r gorchymyn cyswllt. Mae rheoliad 4 yn diwygio Deddf 2014 drwy roi "gorchymyn trefniadau plentyn" yn lle'r cyfeiriadau at "gorchymyn preswyllo" yn adrannau 76 ac 81 i adlewyrchu'r newid hwn.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd

nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 196(6) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU DRAFFT

---

**2017 Rhif (Cy. )**

**GOFAL CYMDEITHASOL,  
CYMRU A LLOEGR**

**Rheoliadau Deddf Gwasanaethau  
Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)  
2014 (Diwygiadau Canlyniadol)  
2017**

*Gwnaed*

\*\*\*

*Yn dod i rym*

*01 Rhagfyr 2017*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 198 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(1).

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 196(6) o'r Ddeddf honno ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

**Enwi a chychwyn**

**1.—(1)** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2017.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Rhagfyr 2017.

## **Deddf Plant 1989**

2.—(1) Mae Deddf Plant 1989(1) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer adran 25C(2)(2) (achosion a atgyfeirir, rheoliadau mewn cysylltiad â Chymru).

## **Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989**

3.—(1) Mae Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(3) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 2(6)(c) yn lle “section 6 of the Local Authority Social Services Act 1970” rhodder “section 144 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014”.

## **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

4.—(1) Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adrannau 76 ac 81, yn lle “gorchymyn preswyllo”, ble bynnag y mae'r geiriau yn digwydd, rhodder “gorchymyn trefniadau plentyn”.

*Rebecca Evans*

Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad

---

(1) 1989 p. 41.  
(2) Mewnosodwyd adran 25C gan adran 10(2) o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p. 23).  
(3) 1989 p. 42.